

Sul Heddwch

Darlleniad 1: Eseia 40

Darlleniad 2: Ioan 14: 15-27

O! Dduw, ein creawdwr a'n cynhaliwr, dyro inni weledigaeth o fyd cyfiawn, lle mae cariad yn teyrnasu yn lle casineb, lle mae daioni yn lle drygioni, lle mae digonedd yn lle tlodi, lle mae tangnefedd yn lle rhyfel. Arwain ein meddyliau a'n calonnau at y gwirionedd. Tywys ni drwy dy Ysbryd Glân at yr efengyl sanctaidd. Rho inni'r awydd a'r gallu i ddarllen a deall dy neges. Boed ystyr a phwrpas dy eiriau'n eglur inni. Ar Sul Heddwch fel hyn, deisyfwn glustiau i wrando, ysbryd i ufuddhau, calon i edifarhau a meddwl i ddeall. Deall yn eglur neges Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd. Cael ystyr a deall cywir o'r Gwynfydau:

‘Gwyn eu byd y rhai addfwyn, y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder. Gwyn eu byd y trugarog, y rhai pur eu calon. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr.’

Diolch, ein Tad, fod yna bobl felly heddiw yn brwydro dros heddwch. Diolch fod yna gyfle a rhyddid i bawb dderbyn a dilyn Iesu Grist. Diolch fod yna gyfle i ni i gyd fod yn halen y ddaear, yn oleuni'r byd yn enw Iesu Grist. Diolch am ddinas noddfa, ‘dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio’. Dinas a Christ Iesu yn sylfaenydd iddi, yn ben ac yn gongl - yr un sy'n galw dynion a merched i dderbyn her a chyfrifoldeb yn achos cyfiawnder, gan ein hatgoffa o'r llawenydd a'r gorfoledd sy'n ein hanes ar y diwedd. Y wobwr fawr, y fuddugoliaeth yn nheyrnas nefoedd drwy Iesu Grist.

‘Hyfryd eiriau'r Iesu,
Bywyd ynddynt sydd;
Digon byth i'n harwain
I dragwyddol ddydd.’

Dydd y byddwn yn llawenhau a gorfoleddu am fod Iesu Grist wedi cael ei le ym mywydau plant a phobl y byd.

‘Mae ei wenau tirion
Yn goleuo'r bedd;
Ac yn ei wirionedd
Mae tragwyddol hedd.’

Heddiw, mewn sawl gwlad yn y byd mae mor dywyll â'r bedd. Unman i droi o sŵn byddarol y bomiau; unman i guddio rhag ergyd y taflegrau; unman i weithio na gorffwys mewn tawelwch. Dim ond erlid, lladd a llygru diddiwedd. Erbyn hyn, ein Tad, rydym wedi colli cyfrif sawl rhyfel sydd *wedi* bod, ac yn methu cadw cyfrif o nifer y rhyfeloedd sy'n *dal* i fod. Drugarog Dad, clyw ein cri am ddoethineb, am gyfiawnder a all fod o oleuni i arweinyddion y byd, y rhai sydd mewn grym ac mewn llywodraeth. Mae'n gweddi am weld terfyn ar ladd, creulondeb a chasineb. Ein gweddi yw:

‘Heddwch ar y ddaear lawr heb ryfel na phoen na phla.
Cyd-fyw mewn hedd wnawn ni bob dydd, bydd ewyllys da,
A Duw'n Dad trugarog, brodyr oll ym ni,
Cerddwn oll gyda'n gilydd mewn hedd a harmoni.’

Annigonol yw geiriau ar gyfer ein gweddi. Ni allwn ond erfyn am i ti ein clywed, a deall ac ateb ein gweddi trwy dy dosturi, ein Tad nefol. Dyro i ni, O! Dduw, weld yn fuan y dydd y bydd heddwch a thangnefedd yn nodweddiadol o'n byd. Dysg ni i ymddiried yn llwyr ynot ti pryd na allwn weld y ffordd yn glir. Dysg ni i rodio mewn ffydd; cadw ni rhag chwerwi mewn ysbryd, na choleddu casineb at neb; gwna ni'n gymdeithas gref; arllwys arnom dy Ysbryd tirion. Maddau bob pechod sydd ynom a rho drwy dy faddeuant obaith am nerth i ennill buddugoliaeth. Sychedig a newynog ydym am gyfiawnder. O! perffeithia ni yn dy nerth, dyro inni flas gorfoledd dy iachawdwriaeth, ac â'th Ysbryd Glân cynnal ni yn ein gwendid. Gofynnwn hyn oll yn enw ac yn haeddiant dy Fab annwyl, Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn a'n dysgodd ni pan weddiwn i ddweud gyda'n gilydd, ‘Ein Tad ... ’ Amen.

Dewi Morris